# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Ebrill 2017

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol

(09:15-09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Dyfodol S4C - Sesiwn dystiolaeth 8

(09:30-10:30) (Tudalennau 1 - 11)

Rhodri Talfan Davies, Pennaeth BBC Cymru Wales
Siân Gwynedd, Pennaeth Cynhyrchu Cynnwys, BBC Cymru Wales

## 3 Cyllid ar gyfer addysg cerddoriaeth a mynediad at yr addysg honno - Sesiwn dystiolaeth 11

(10:30-11:15) (Tudalennau 12 - 19)

Heather Powell, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych
Fflur Wyn Roberts, Rheolwr Swyddfa, Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych

## 4 Papur(au) i'w nodi

**Llythyr at Ymgyrch Hanes Cymru gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

(Tudalennau 20 - 25)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyfodol S4C: Tystiolaeth ychwanegol gan TAC

(Tudalennau 26 - 30)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6, 7, 8 a 9

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

(11.30-11.45)

## 7 Newyddiaduraeth Newyddion a'r Cyfryngau Lleol: Papur Cwmpasu

(11.45-12.00) (Tudalennau 31 - 42)

## 8 Ymchwiliad i strategaeth y Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru: Cytuno ar yr adroddiad drafft

(12.00-12.30)

## 9 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(12.30-12.45) (Tudalennau 43 - 48)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Dyfodol S4C / The Future of S4C
CWLC(5) FS4C01
Ymateb gan BBC Cymru / Evidence from BBC Wales

## 1. Cyflwyniad a chefndir

Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar ei berthynas gydag S4C – perthynas gref sydd wedi bod yn werthfawr i gynulleidfaoedd yng Nghymru ers 1982.

Mae'r papur hwn yn disgrifio partneriaeth greadigol BBC Cymru gydag S4C, ac yn egluro y berthynas rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C.

Rydym yn edrych ymlaen at yr Adolygiad Annibynnol o S4C gan y bydd yn gyfle i drafod rôl cyfryngau cyfrwng Cymraeg o fewn cyd-destun sy'n symud yn gyflym.

## 2 Rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C

Wrth galon perthynas y BBC gydag S4C mae'r hyn a elwir 'y rhaglenni a gyfrennir'. Mae Deddf Darlledu 1990 yn nodi fod angen i'r BBC ddarparu dim llai na 520 o oriau o gynnwys y flwyddyn i S4C. Mae'r bartneriaeth greadigol wedi bod wrth galon darlledu cyfrwng Cymraeg ers 1982, ac yn cefnogi pwrpasau cyhoeddus y ddau sefydliad..

Mae'r rhaglenni yn cynnwys newyddion, materion cyfoes, chwaraeon byw, *Pobol y Cwm* a sylw eang i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Gwerth y rhaglenni yma yn y flwyddyn 2017/18 fydd £19.4m.

### 2.1 Newyddion a Materion Cyfoes

Mae'r rhaglen Newyddion am 9 o'r gloch yn parhau wrth wraidd ein darpariaeth ar gyfer S4C. Mae'r rhaglen *Newyddion 9* yn gosod safon uchel ac mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa a'r ffigurau gwylio wedi cynyddu'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gyda Bethan Rhys Roberts a Rhodri Llywelyn wrth y llyw, mae'r rhaglen yn dadansoddi prif straeon newyddion y dydd. Mae'n torri tir newydd hefyd gydag adroddiadau ar straeon gwreiddiol o Gymru.

Mae rhaglenni materion cyfoes a newyddion eraill yn cynnwys y sioe banel sy'n trafod materion cyfoes, *Pawb a'i Farn*, a gyflwynir gan Dewi Llwyd.

Rydym hefyd yn darparu rhaglenni byw o gynadleddau pleidiau gwleidyddol. Daeth *Y Sgwrs* i ben ym mis Gorffennaf 2016 a bydd rhaglen wleidyddol newydd ganol wythnos, *O'r Senedd* yn darlledu o ddiwedd mis Chwefror ymlaen, gan ganolbwyntio ar rai o bynciau gwleidyddol llosg yr wythnos.

Bob diwrnod o'r wythnos waith, rydym hefyd yn darparu bwletin newyddion tua 6pm, sef *Ffeil*, sydd wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer pobl ifanc

Cynhyrchwyd rhaglen o ganlyniadau byw etholiad y Cynulliad Cenedlaethol dros nos ym mis Mai 2016 ar gyfer S4C.

### 2.2 Drama

Mae *Pobol y Cwm* yn dilyn hynt a helynt cymuned Cwmderi ac mae wedi hen arfer delio â themâu anodd a straeon dadleuol. Mae'r rhain yn cynnwys alcoholiaeth a thrais yn y cartref. Mae *Pobol y Cwm* wedi derbyn gwobrau cenedlaethol gan yr elusen Mind am y ffordd mae wedi portreadu rhai i'r materion dyrys hyn.

Hi yw y gyfres ddyddiol sy'n darlledu drwy'r flwyddyn mwyaf poblogaidd ar S4C ac mae'n gonglfaen i'r amserlen nosweithiol.

### 2.3 Chwaraeon

Mae chwaraeon byw yn rhan fawr o'n cyflenwad rhaglenni i S4C. Yn flynyddol, mae'n cynnwys gemau rygbi'r Pro 12, gemau cartref Cymru yn nghystadleuaeth y Chwe Gwlad yn fyw, yn ogystal â gemau rhyngwladol yr Hydref.

Denodd gemau rygbi byw y Pro 12 yn y rhaglen Clwb Rygbi gynulleidfa o 54,000 ar gyfartaledd yn 2016 ac fe gynyddodd hyn wedi i'r gemau ddychwelyd i slot prynhawn Sadwrn (o brynhawn dydd Sul) ym mis Medi 2016.

Roedd y llynedd yn flwyddyn arbennig o gyffrous ym myd chwaraeon wrth i dîm pêl-droed cenedlaethol Cymru gyrraedd gemau go-gynderfynol cystadleuaeth  Ewro 2016. Darparodd BBC Cymru raglenni byw o bedair o gemau Cymru, yn ogystal â chynnwys digidol ar gyfer platfformau eraill.

## 2.4 Eisteddfod Genedlaethol

Mae sylw i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn parhau yn gonglfaen ein rhaglenni ar gyfer S4C a'r llynedd cafodd y rhaglenni eu darparu mewn HD am y tro cyntaf. Defnyddir cyflwynwyr arbenigol a rhai newydd gyda chyfanswm o oddeutu 100 awr o sylw cynhwysfawr i'r ŵyl. Mae'r rhaglenni'n gymysgedd o gystadlaethau a dadansoddi a golwg ysgafnach ar y Maes a'r gweithgareddau ymylol.

## 2.5 Rhaglenni ffeithiol

Rydyn ni hefyd yn darparu nifer fechan o raglenni ffeithiol i S4C, gan gynnwys rhaglenni Cymraeg a Saesneg cyfatebol fel rhaglen ddogfen Huw Edwards ar Batagonia. Mae sylw i BBC Canwr y Byd Caerdydd hefyd yn gynhyrchiad cefn-wrth-gefn a fydd yn dychwelyd i'n sgrîn ym mis Mehefin 2017.

## 2.6 Cydweithio golygyddol pellach

Y tu hwnt i'r 520 awr statudol, mae BBC Cymru yn gweithio'n agos gydag S4C ar brosiectau rhaglenni sy'n gallu bod o fudd i gynulleidfaoedd Cymraeg neu Saesneg eu hiaith. Er enghraifft, mae cyfres ddrama *Hinterland/Y Gwyll* wedi ei gyd-gomisiynu gan y BBC ac S4C, ac mae bellach yn cael ei dosbarthu ar draws y byd. Mae dramâu a rhaglenni ffeithiol tebyg yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

*Oriau gwreiddiol BBC Cymru ar S4C yn ôl genre 2015/16*

| **Genre** | **Awr** |
|---|---|
| Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth, Celfyddydau | 168 |
| Newyddion a Materion Cyfoes | 264 |
| Chwaraeon | 81 |
| Addysg, Ffeithiol a Chrefyddol | 3 |
| Plant | 0 |
| Ailddarllediadau | 100 |
| Cyfanswm Oriau | 616 |

Mae cynnwys y BBC ar gyfer S4C yn cael ei gynhyrchu gan dimau cynhyrchu mewnol ac yn ategu'r rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu'n annibynnol sef gweddill gwasanaeth S4C.

## 3 Perfformiad

Mae rhaglenni'r BBC wrth galon amserlen S4C. Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae ein cyfraniad yn cynnwys Newyddion 9, y ddrama nosweithiol *Pobol y Cwm*, rygbi domestig a rhyngwladol byw a sylw helaeth i'r Eisteddfod Genedlaethol. At ei gilydd, mae cynyrchiadau'r BBC ar S4C yn cyfrannu 37% o oriau gwylio S4C

- Denodd y darllediadau o gemau rygbi byw y Pro12 yn y rhaglen *Clwb Rygbi* gynulleidfa o 54,000 ar gyfartaledd yn 2016.
- Mae'r brif raglen newyddion gyda'r nos *Newyddion 9* yn denu cynulleidfa o 21,000 ar gyfartaledd, sy'n uwch na'r blynyddoedd blaenorol oherwydd bod y rhaglen wedi datblygu agenda benodol ar Gymru.
- Mae'r opera sebon dyddiol, *Pobol Y Cwm*, yn denu cynulleidfa o 43,000 i gyd wrth ddarlledu'r prif raglenni a'u hailadrodd y diwrnod canlynol.
- Mae cynnwys S4C ar BBC iPlayer yn cael ei weld dros 100,000 gwaith bob wythnos, ac mae hyn yn cyfrannu hyd at 3% o gyfanswm oriau gwylio S4C.

## 4 Darparu gwerth ychwanegol i S4C

Y tu hwnt i'r costau uniongyrchol o gynhyrchu 520 o raglenni i S4C, mae'r BBC yn darparu gwerth ychwanegol i'r sianel mewn nifer o ffyrdd arwyddocaol.

Mae'r ffynonellau ychwanegol yn cynnwys:

- Mynediad at wasanaeth casglu newyddion y BBC – Mae'r rhaglen newyddion *Newyddion 9*, sy'n cael ei chynhyrchu gan y BBC ar gyfer S4C, yn gallu cael mynediad at wasanaeth casglu newyddion y BBC ar draws y byd am ddim cost ychwanegol er mwyn adrodd ar y prif ddigwyddiadau rhyngwladol e.e. etholiadau 2016 UDA, yr argyfwng mudwyr yn Ewrop.

- Rhaglenni Chwaraeon - Mae'r BBC yn darparu rhaglenni chwaraeon rhyngwladol byw i S4C heb basio costau'r hawliau ymlaen. Mae hyn yn cynnwys hawliau i raglenni byw o'r Chwe Gwlad, gemau rhyngwladol yr Hydref ac Ewro 2016

- Mynediad at iPlayer – Mae S4C yn sianel iPlayer lawn ac o ganlyniad yn rhoi mynediad at oddeutu 1,200 o ddyfeisiau sydd wedi eu cysylltu gydag iPlayer. Mae cost iPlayer i S4C ar sail 'nid er elw' gan gydnabod y bartneriaeth unigryw sy'n bodoli rhwng y BBC ac S4C

- Mynediad at Archif y BBC – Mae gan raglenni a gomisiynir gan S4C yr hawl ddefnyddio archif rhaglenni BBC Cymru Wales ar delerau nad ydynt ar gael i ddarlledwyr eraill

## 5. Y Sgwâr Canolog a'r Egin

Bydd BBC Cymru yn adleoli ei phrif ganolfan gynhyrchu i'r Sgwâr Canolog, yng nghanol dinas Caerdydd yn 2019. Yn sgil y datblygiad hwn, bydd staff BBC Cymru sy'n gweithio yn y safle presennol yn Llandaf yn symud i'r ganolfan newydd sydd gyferbyn â gorsaf Drenau Caerdydd Canolog.

Mae'r isadeiledd technoleg Llandaf wedi dyddio ac mae gweithio mewn adeilad sydd wedi'i osod allan yn wael yn cyfyngu ar y staff. Bydd yr adeilad newydd yn hanner maint y cyfleusterau presennol a bydd y dechnoleg newydd yn golygu y bydd yn rhatach i gynnal ein gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Fel rhan o'r datblygiad newydd, fe amcangyfrifir y bydd oddeutu 20 o staff S4C yn cyd-leoli yn yr adeilad newydd ac mae cynlluniau ar droed i rannu'r gwasanaethau darlledu gyda S4C er mwyn arbed costau gweithredol i'r ddau ddarlledwr. Mae disgwyl i'r trafodaethau rhwng y darlledwyr gwblhau'n fuan.

Bydd S4C hefyd yn adleoli ei bencadlys i ganolfan Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym wrthi'n trafod â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am ddichonolrwydd adleoli ein staff sydd yn y stiwdio yng Nghaerfyrddin i ganolfan Yr Egin ac mae'r trafodaethau ariannol a gweithredol hynny yn dal i fynd rhagddynt gyda'r Brifysgol.

## 5. Ariannu S4C drwy ffi'r drwydded

Yn ogystal â chyflenwad statudol o raglenni gan y BBC, mae S4C hefyd yn derbyn arian yn uniongyrchol o ffi'r drwydded gan Ymddiriedolaeth y BBC,

gwerth £74.5m y flwyddyn i S4C yn 2017/18. Mae'r ffigwr yma yn sefydlog tan ddiwedd cyfnod ffi'r drwydded bresennol yn 2021/22.

Mae Siarter Frenhinol newydd y BBC (2017) yn cadarnhau y dylai Ffi'r Drwydded barhau i gefnogi a darparu S4C, a bod yn sail i hynny. Mae'r Siarter hefyd yn nodi y dylai y 'BBC ac S4C rannu'r nod o gydweithio i arsylwi a diogelu annibyniaeth y ddau, ac i wneud y defnydd gorau o'r ariannu er mwyn gwarchod buddiannau cynulleidfaoedd (yn enwedig y rheiny sy'n siarad Cymraeg), cyn belled â bod hynny'n gyson gyda rhwymedigaethau y ddau.'[1]

## 6. Trefniadau atebolrwydd i'r dyfodol

Mae dwy ddogfen yn sail i'r ffordd y gweinyddir y bartneriaeth bresennol rhwng y ddau ddarlledwr.

Yr un cyntaf yw'r Cytundeb Gweithredu sy'n bodoli rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C. Mae hwn yn canolbwyntio ar y berthynas o ariannu uniongyrchol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdod. Yr ail yw'r ddogfen 'Partneriaeth Strategol'. Mae hwn yn gosod allan sut y caiff y rhaglenni sy'n cael eu cyfrannu eu cyflenwi gan BBC Cymru

Mae'r ddau yn dirwyn i ben yn fuan ac angen eu diweddaru i adlewyrchu model llywodraethiant newydd y BBC. Mae'r BBC ac S4C wrthi'n trafod ar hyn o bryd y trefniadau atebolrwydd newydd a fydd yn cymryd y Siarter newydd i ystyriaeth ac, yn enwedig, sefydlu Bwrdd Unedol newydd i'r BBC.  Y disgwyl yw mai canlyniad y broses hon fydd un trefniant atebolrwydd symlach a fydd yn cwmpasu agweddau rhaglenni a chyllidebol y bartneriaeth.

---

[1] BBC Charter Framework Agreement (2017), t39.
http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/about/how_we_govern/2016/agreement.pdf

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

The Musicians' Union (MU) has around 20,000 members who teach music, and is therefore well placed to offer insight into music education across Wales, including how the current situation and any possible changes compare to the rest of the UK. This submission sets out a few crucial aspects of music education that must be considered by the Committee as part of their inquiry.

Firstly, the ultimate goal of music education in Wales should be that all children have access to affordable, high-quality musical tuition and opportunities, across all genres of music and all areas of the country. However, this is not the current situation, as there are differences in provision across the country, while music services and teachers face significant pressures. Music education must be based on equal support for all genres of music as well as children's needs, with a focus on diversity and inclusion, so that young people with special educational needs and in deprived areas have the same opportunities as those in wealthier areas. The Committee should consider the extent to which provision varies across Wales and how to ensure that the situation improves.

Secondly, funding and business models are fundamental issues for the successful delivery of music education, as they affect every other part of the system. Music education in Wales is still largely delivered by local authority music services, but this model is under pressure due to lack of funding as well as additional challenges, such as the rural and deprived nature of much of Wales. There are alternative business models for music education, as highlighted by the MU's series of Hub Reports – examples include the Denbighshire Music Co-operative and, in England, the Cornwall Music Service Trust. However, the lack of ring-fenced, long-term funding for music education in Wales is a major issue, and greater resources are needed to deliver the vision set out above. The Committee should consider how to ensure the right resources and structures are in place for the successful delivery of music education.

Finally, it is crucial that the Committee considers the current state of the workforce, and how to provide better support for music teachers, without whom no music education would take place. The MU's members who teach tell us that they get an immense amount of satisfaction from what they do to inspire the next generation of musicians. However, good pay and conditions, as well as professional recognition, is just as important for music teachers as for other workers, and over time there has been a gradual erosion of rates of pay and conditions, as well as a move towards self-employment. Music education is only possible with a committed, skilled, and creative workforce, and unless teachers are supported and appreciated then unfortunately it is the quality, affordability, and accessibility of children's music education that will suffer. The Committee should consider how best to support music teachers in delivering high-quality, affordable, and accessible tuition across Wales.

Wales is rightly proud of its musical heritage, and there is still a variety of quality music-making taking place. However, this is not consistently affordable and accessible for children across the country, which will only be possible with the right strategy, along with appropriate funding and well-supported teachers. Issues of accessibility, funding, and the workforce must be considered in the Committee's inquiry to ensure the viability and success of music education in the future.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Eryl Owain
History of Wales Campaign
Tan-y-dderwen
Penmachno
Betws-y-coed
LL24 0PS

23 March 2017

Dear Eryl Owain

**History of Wales and the new curriculum**

Thank you for your letter of 4 February regarding the inclusion of the history of Wales within the new curriculum. May I first apologise for the delay in responding to you on this matter.

The Children, Young People and Education Committee is currently scrutinising the implementation of Successful Futures, and will continue to monitor implementation regularly. Part of our current scrutiny has been to consider the wider development of the new curriculum, and the Committee has sought to focus strategically on the way implementation is being carried out rather than concentrating on specific areas / subjects to be included in the new curriculum.

However, a consultation undertaken by the Committee during summer 2016 highlighted a call for greater teaching of Welsh history, and indeed regional and local history. The Committee recognised this, and has already written to the Cabinet Secretary for Education regarding this matter. A copy of the Committee's letter to the Cabinet Secretary, and her response is attached.

Alongside this, I would like to highlight that a *'Review of the teaching of history in Wales to focus on Welsh culture and heritage'* was recently included in a list of topics for potential areas of work by the Assembly's Culture, Welsh Language and Communications Committee. While the CWLC Committee is not undertaking work on this matter at present, it may be a topic it considers within its forward work programme. I have

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

therefore copied this letter to the Chair of the Culture, Welsh Language and Communications Committee for information.

As outlined above, the Children, Young People and Education Committee will monitor progress on implementation of the new curriculum regularly, and we will look again at the content of the AoLE as the Welsh Government moves forward with their detailed development. Any work we undertake on this will accessible on the Committee's website.

Yours sincerely

**Lynne Neagle AC / AM**
Cadeirydd / Chair

C.C. Bethan Jenkins – Chair of Culture, Welsh Language and Communications Committee

RECEIVED
14 FEB 2017

# *HISTORY OF WALES CAMPAIGN*

*supported by*

*CANOLFAN HANES UWCHGWYRFAI and CYLCH YR IAITH*

Please reply to: Tan-y-dderwen, Penmachno, Betws-y-coed LL24 0PS
owaintan@hotmail.com ffôn: 01690 760335

## *F.A.O.* Members of the Children, Young People and Education Committee

## History of Wales and the new curriculum

04 February 2017

Dear Lynne Neagle

We welcomed the statement by the then Education Minister, Huw Lewis, in March 2014 that he supported "the development of an unique curriculum for Wales" and the proposal of Professor Donaldson's report, *Successful Futures*, in February 2015 to create a structure that would make this possible. But we are not confident that sufficient attention has been given to the importance of the Welsh dimension and of the history of Wales in particular within the new curriculum that is being developed.

Although *Successful Futures* refers to the Welsh dimension, that appears to be largely in terms of "language and culture" only. References that the six Areas of Learning and Experience should include the Welsh dimension are vague and generalised.

We understand from the action plan, *A curriculum for Wales – a curriculum for life* (October 2015) that there will be gradual change from the existing curriculum to the new curriculum and that Pioneer Schools will play a vital part in producing the framework that will be available for schools. In general, we welcome the opportunity given to teachers to design a new curriculum. However, we have grave doubts as to how much attention will be given to the history of Wales if these Pioneer Schools are not given clear guidance and advice.

These doubts are based on the findings of the taskforce chaired by Dr Elin Jones (*The Cwricwlwm Cymreig, history and story of Wales*, September 2013) that insufficient attention is given to the history of Wales and that the history of Wales is ignored largely or wholly in many schools. We hope that you would agree that this is unacceptable and that Welsh pupils should have the opportunity to learn about the history of their country.

There is no basis to believe that this unacceptable situation has changed since 2013. Indeed, there are grounds for concern that less attention is given to the history of Wales as schools, in attempt to act in accordance with the general principles of *Successful Futures*, are using resources from England to teach history, resources which naturally are based on the history of England.

We call upon the Children, Young People and Education Committee to give careful consideration to the need to ensure that the Welsh dimension forms an integral and central part of each Area of Learning and Expeience. In relation to the history elements within the Humanities Area of Learning and Experience, we call for:

- a clear statement by the Cabinet Secretary for Education that the Welsh experience in its various forms over the centuries is an integral and central part of the curriculum of all schools in Wales as the basis for understanding what happens outside Wales.

- confirmation that the Pioneer Schools, in developing the new curriculum, will do so on the basis of this fundamental principle in accordance with the commitment of *Successful Futures* to the importance of the Welsh dimension

- the setting up of working parties of practitioners and other experts to review the need for sufficient resources to enable the revised history curriculum to be implemented successfully

- sufficient finance to prepare these resources so that they are available to schools in Welsh and English to a standard comparable to resources available for schools in England

We ask you to give careful thought to these most important issues, to raise them within meetings and the remit of Children, Young People and Education Committee and to ensure that the Secretary for Education takes the necessary steps to establish the Welsh dimension and the history of Wales as an integral part of the curriculum of the future.

We look forward to receiving your response and would welcome the opportunity to explain our position more fully.

Yours faithfully

Eryl Owain
Coordinator History of Wales Campaign

# YMGYRCH HANES CYMRU

AR Y CYD Â

CHANOLFAN HANES UWCHGWYRFAI A CHYLCH YR IAITH

Gohebiaeth os gwelwch yn dda i: Tan-y-dderwen, Penmachno, Betws-y-coed LL24 0PS
owaintan@hotmail.com ffôn: 01690 760335

## I sylw aelodau Pwyllgor Plant, Pob Ifainc ac Addysg

## Hanes Cymru a'r Cwricwlwm Newydd

04 Chwefror 2017

Annwyl Lynne Neagle

Croesawyd gennym ddatganiad y Gweinidog Addysg ar y pryd, Huw Lewis, ym Mawrth 2014 ei fod am "weld cwricwlwm unigryw yn cael ei ddatblygu i Gymru" ac argymhelliad adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, yn Chwefror 2015 y dylid creu strwythur a fyddai'n gwneud hynny'n bosibl. Ond nid ydym yn hyderus bod sylw digonol yn cael ei roi i bwysigrwydd y dimensiwn Cymreig a hanes Cymru yn benodol oddi mewn i'r cwricwlwm newydd sydd yn y broses o gael ei ddatblygu.

Er bod *Dyfodol Llwyddiannus* yn cyfeirio at y dimensiwn Cymreig, gwneir hynny yng ngyd-destun "iaith a diwylliant" yn unig. Arwynebol iawn yw'r cyfeiriad y dylai pob un o'r Chwe Maes Dysgu a Phrofiad gynnwys dimensiwn Cymreig.

Deallwn o'r Cynllun Gweithredu, *Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes*, (Hydref 2015) y bydd symud graddol o'r cwricwlwm presennol i'r cwricwlwm newydd ac y bydd gan yr Ysgolion Arloesi ran allweddol yn ffurfio'r fframwaith a fydd ar gael i ysgolion. Ar un ystyr, mae rhoi rôl flaenllaw i athrawon lunio cwricwlwm newydd i'w groesawu. Ond mae gennym bryderon mawr am faint o sylw a roddir i hanes Cymru os nad yw'r ysgolion arloesi wedi derbyn arweiniad a chyfarwyddyd clir.

Sail ein pryder yw canfyddiadau tasglu dan gadeiryddiaeth Dr Elin Jones (*Y Cwricwlwm Cymreig, stori a hanes Cymru*, Medi 2013) mai annigonol iawn yw'r sylw a roddir i hanes Cymru ac, yn wir, bod hanes Cymru'n cael ei anwybyddu i raddau helaeth, os nad yn llwyr, mewn llawer o ysgolion. Hyderwn y cytunwch na ddylai hyn barhau ac y dylai disgyblion ysgolion Cymru ddysgu am hanes eu gwlad.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y sefyllfa anfoddhaol hon wedi newid o gwbl er 2013. Yn wir, mae lle i bryderu bod llai o sylw i hanes Cymru wrth i ysgolion, mewn ymgais i weithredu'n unol â meddylfryd *Dyfodol Llwyddianus*, ddefnyddio adnoddau o Loegr ar gyfer dysgu hanes, adnoddau sydd â phwyslais naturiol ar hanes Lloegr.

Galwn ar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifainc ac Addysg i roi ystyriaeth fanwl i'r angen i sicrhau bod y dimensiwn Cymreig yn rhan ganolog a chreiddiol o bob Maes Dysgu a Phrofiad. O ran elfennau hanes oddi mewn i Faes Profiad a Dysgu Dyniaethau, galwn am

- ddatganiad clir gan Ysgrifennydd Addysg y Cabinet y bydd meysydd llafur hanes holl ysgolion Cymru'n rhoi lle sylfaenol a chanolog i'r profiad Cymreig yn ei holl amrywiaeth dros y canrifoedd fel sail i ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd y tu allan i Gymru

- sicrhad y bydd yr Ysgolion Arloesi, wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, yn gwneud hynny ar sail yr egwyddor sylfaenol hon ac yn unol ag ymrwymiad *Dyfodol Llwyddiannus* i bwysigrwydd y dimensiwn Cymreig

- sefydlu gweithgorau o ymarferwyr ac arbenigwyr i adolygu'r angen am adnoddau digonol i gyflwyno'r cwricwlwm hanes diwygiedig yn llwyddiannus

- gyllid digonol i ddarparu'r adnoddau hynny fel bod deunyddiau addysgu ar gael i ysgolion Cymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a fydd yn cymharu'n ffafriol â'r hyn sydd ar gael ar gyfer ysgolion Lloegr gyda'u pwyslais naturiol ar hanes Lloegr

Gofynnwn i chi roi sylw i'r materion pwysig hyn, i'w codi mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifainc ac Addysg ac i bwyso ar y Gweinidog i sicrhau bod y dimensiwn Cymreig a hanes Cymru yn rhan greiddiol o gwricwlwm y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb a byddem yn croesawu unrhyw gyfle i egluro ein safbwynt yn llawnach.

Yn gywir

Eryl Owain
Cyd-lynydd Ymgyrch Hanes Cymru

Uned 2, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 3AW

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Mawrth 2017

Annwyl Gadeirydd,

Ar ran TAC, hoffwn ddiolch unwaith eto i chi am ein gwahodd i ymddangos o flaen eich pwyllgor ar 16 Mawrth 2017.

Yn ystod y sesiwn, fe wnaethom ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor. Buasem hefyd yn hoffi darparu atebion pellach i rai o'r pwyntiau eraill a godwyd.

**Rôl S4C**

Mae dyfodol S4C yn gysylltiedig ag amrywiaeth, creadigrwydd ac entrepreneuriaeth y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Mae'r cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru wedi eu sefydlu ac yn cael eu rhedeg gan bobl ag ymrwymiad dwfn i gynhyrchu cynnwys ystyrlon wedi ei gyfleu trwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny, adlewyrchu a hyrwyddo bywyd a diwylliant Cymru.

Byddem yn gofyn i'r pwyllgor ystyried beth yn union mae 'S4C' yn ei olygu i aelod o'r cyhoedd. Yn ein profiad ni, maent yn adnabod S4C drwy ei rhaglenni, boed hynny yn *Rownd a Rownd*, *Fferm Ffactor*, *Ochr 1*, *Y Gwyll* neu raglenni ar wasanaeth plant *Cyw* – a'r cyfan wedi eu cynhyrchu gan aelodau TAC. Er bod angen system weinyddol i amserlennu a chomisiynu cynnwys ar bob gwasanaeth cyfryngol, y cynnwys ei hun sydd wrth galon hunaniaeth y gwasanaeth, a'i allu i wasanaethu cynulleidfaoedd.

Oherwydd hyn, mae'r sector cynhyrchu yn rhan gynhenid o'r ffordd y mae S4C yn gweithio ac yn datblygu ei brand. Fel estyniad o'u huchelgais creadigol, a thrwy eu hawydd i bortreadu Cymru yn gadarnhaol i weddill y DU a thu hwnt, mae ein haelodau hefyd yn ceisio ennill comisiynau gan ystod ehangach o ddarlledwyr. Gan fod y sector wedi cael ei gyhuddo o fod yn or-ddibynnol ar S4C yn y gorffennol, rydym yn teimlo bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol i unrhyw un sy'n gwerthfawrogi cynhyrchu cynnwys Cymraeg gwreiddiol.

Serch hynny, gydag ymchwil yn dangos adenillion economaidd o £2.09 ar bob £1 a fuddsoddir, mae buddsoddiad S4C yn y sector yn hollbwysig. Dyma pam dylai cylch gwaith S4C ymrwymo yn glir i gomisiynu'r mwyafrif helaeth o'i rhaglenni gan y sector annibynnol.

Yn ddiau, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod Cytundeb Gweithredu cyfredol S4C a'r BBC[1] yn nodi: *'The BBC Trust and the S4C Authority have agreed that S4C should commission the vast majority of its content from independent production companies.'*

Yn achos comisiynu cynnwys gan y BBC, noda wedyn y dylai hyn *'should only ever constitute a small proportion of the overall content commissioned by S4C.'*

Dylai'r ymrwymiad hwn fod yn rhan o gylch gwaith S4C drwyddi draw, ac er bod S4C fod yn rhydd i gomisiynu gan unrhyw gynhyrchydd, mae'n bwysig nodi y dylai'r mwyafrif helaeth o gomisiynu ddod gan y sector annibynnol yn hytrach na stiwdios mewnol darlledwyr eraill.

**Cynhyrchu S4C**
Gofynnwyd i ni a ddylai S4C gynhyrchu ei chynnwys ei hun yn fewnol. Mae S4C eisoes yn ddarlledwr/ gyhoeddwr arobryn, felly nid oes unrhyw broblemau safon â'i allbwn ar hyn o bryd. Byddai cynhyrchu ei rhaglenni ei hun yn golygu buddsoddiad sylweddol. Ar wahân i'r BBC ac ITV, sydd wedi cynhyrchu rhywfaint o'u cynnwys yn hanesyddol, mae cwmnïau cyfryngau eraill yn dewis defnyddio'r sector annibynnol bywiog i gyrchu'r syniadau a'r arbenigedd gorau, i ddiwallu'r angen am gynnwys sy'n diffinio sianel ac yn ei gwahaniaethu yn y farchnad, yn hytrach na buddsoddi mewn stiwdios mewnol, anhylaw.

Byddai cynhyrchu mewnol yn gosod baich ariannol o gostau sefydlog ar S4C, a fyddai'n golygu bod angen comisiynau rheolaidd cyson ar gyfer yr adnoddau, a hynny heb ystyried ai dyma'r syniadau neu'r gwaith gorau posibl. Byddai hyn yn tanseilio'r egwyddor o gomisiynu'r cynnwys gorau, waeth beth yw'r ffynnhonnell, sef yr egwyddorion craidd y sefydlwyd S4C a Channel 4 arnynt.

Mae angen hyblygrwydd ar S4C i ganolbwyntio adnoddau ar ei weledigaeth, sydd yn esblygu'n barhaus, ac mae comisiynu cwmnïau cynhyrchu ledled Cymru yn fodd o annog cystadleuaeth greadigol a gwerth am arian.

Buasai cylch gorchwyl clir i S4C weithio gyda'r sector annibynnol, fel yr argymhellwyd yn ein papur gwreiddiol, yn golygu y gallai'r cwmnïau sicrhau buddsoddiad ychwanegol i arallgyfeirio gweithgareddau, cynhyrchu ar gyfer y farchnad ehangach, a thyfu eu busnesau ynghyd â buddsoddi mewn technoleg a syniadau cynhyrchu newydd.

**Ymchwil cynulleidfa**
Yn olaf, mi drafodon ni batrymau gwylio cynulleidfaoedd a chrybwyll ymchwil yn y maes. Dangoswyd yr ymchwil dan sylw i aelodau TAC gan S4C ac rydym wedi ei gynnwys fel atodiad.

**Datganoli S4C**
Yn achos datganoli darlledu, mae TAC yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'i rôl bresennol ym materion Cymru. O ran cyfrifoldeb dros S4C, byddem yn ailadrodd y pwynt a wnaed yn ein papur, sef bod S4C ar ei hennill o fod yn rhan o system ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) ehangach y DU. Fel y nododd aelod o'r pwyllgor, mae S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol yn ymdrechu i apelio at gynulleidfaoedd ehangach, ond mi allai ei phellhau oddi wrth rwydweithiau PSB eraill feithrin canfyddiad o S4C fel darlledwr lleiafrifol ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru yn unig.

Gellid diwallu'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch y posibilrwydd o doriadau gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol drwy sefydlu strwythur ariannu priodol na ellid ymyrryd arno ar hap.

[1] BBC Trust – Cytundeb Gweithredu Awdurdod S4C, t.5 para. 2.6

Hyd yn oed petai'r cyfrifoldeb dros S4C yn cael ei drosglwyddo, mi fyddai'r llywodraeth ganolog yn parhau i ariannu S4C drwy ei grant cyffredinol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Pe bai grant Llywodraeth Cymru'n gostwng mewn termau real, byddai hyn yn esgor ar y math o broblem a grybwyllwyd yn sesiwn y pwyllgor, sef gwrthdaro posibl â blaenoriaethu gwariant mewn meysydd eraill. Ar ben hynny, petai cyllid S4C yn cael ei fwndelu i grant cyffredinol Cymru, ni fyddai modd ystyried ei gysylltu â chwyddiant.

**Manteisio ar Hawliau**

Mi gododd cwestiwn hefyd ynglŷn ag ymelwa ar hawliau. Mae rhai cwmnïau yng Nghymru, megis Rondo a Cwmni Da, wedi sefydlu cytundebau dosbarthu sy'n dod ag incwm gweddilliol iddynt. Mae lle i annog y sector cyfan i fod yn rhagweithiol yn y maes hwn, ac mi yn un o swyddogaethau Rheolydd Cyffredinol newydd TAC i greu rhaglen o adnoddau a digwyddiadau i gynorthwyo aelodau i wneud y gorau botensial eu heiddo deallusol (ED).

Mae'r sector cynhyrchu yn y DU yn ddiwydiant sy'n arwain y byd, gan allforio £1,326bn yn 2015-16 ar draws y byd gyda rhaglenni a fformatau.[2] Mae hyn yn bosibl yn sgil amodau gwarchod hawliau ED cynhyrchwyr o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003. Dim ond trwydded i ddarlledu rhaglen am nifer benodol o weithiau dros gyfnod penodol y gall darlledwr ei phrynu gan gynhyrchydd annibynnol. Mi all y darlledwr a'r cynhyrchydd drafod yr hawliau rheini ymhellach, ond rhaid i'r trafodaethau gael eu cynnal ar wahân i'r drafodaeth am yr 'hawliau sylfaenol' cychwynnol. Y rhagdybiaeth yw bod yr hawliau bob amser yn gorwedd gyda'r cynhyrchydd. Llai na deunaw mis yn ôl, daeth adolygiad Ofcom i'r casgliad nad oedd angen addasu'r ddeddfwriaeth hon.

**Ymchwil cynulleidfa**

Yn olaf, mi drafodon ni batrymau gwylio cynulleidfaoedd a chrybwyll ymchwil yn y maes. Dangoswyd yr ymchwil dan sylw i aelodau TAC gan S4C ac rydym wedi ei gynnwys fel atodiad.

**I gloi**

Gobeithio bydd y wybodaeth atodol hon yn ddefnyddiol i chi. Er nad oedd y sector annibynnol yn rhan o'ch gwaith cychwynnol ar ddarlledu, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i estyn gwahoddiad cynnes i'r pwyllgor cyfan ymweld ag un neu ragor o'r cwmnïau cynhyrchu i ddysgu mwy am eu gwaith petai hynny'n ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn, neu os cyfyd unrhyw ymholiad yn y dyfodol.

Mae strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DU wedi clustnodi'r diwydiannau creadigol fel maes allweddol i'w ddatblygu. Dylai Cymru weithredu ar hyn, ac argyhoeddi Llywodraeth y DU i fuddsoddi ymhellach yn economi Cymru, drwy gynyddu ei grant i S4C, a nodi yn benodol y dylai gael ei fuddsoddi yn y sector cynhyrchu annibynnol gan mwyaf.

Dros y dyddiau diwethaf, rydym wedi gweld Llywodraeth y DU yn cynnig benthyciad i S4C a rhewi ei chyllid n rhannol ar gyfer y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Wrth i bawb barhau i ddadlau'r achos dros ddyfodol cynaliadwy i S4C, rydym yn gobeithio y gallwn gyflawni canlyniad cadarnhaol i'r adolygiad a fydd o fudd i gynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt.

Yn gywir



Iestyn Garlick, Cadeirydd

[2] Arolwg Allforio Teledu TRP 2015-16

**Atodiad i lythyr dilyniant TAC at y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Mawrth 2017**

**Ymchwil S4C**

Bu trafodaeth parthed newidiadau i arferion gwylio ymhlith cynulleidfaoedd iau, ac fe gyfeiriodd TAC at ymchwil a welwyd gan S4C. Mae copi o’r graffau gan Enders Analysis, yn seiliedig ar waith BARB/Infosys+, wedi’u cynnwys isod.

Mae’r graff cyntaf o’r isod yn dangos patrymau cynulleidfa yn y grŵp oedran 16-34 oed.

Rydym yn derbyn yn llwyr fod yr adran Sgriniau ‘Eraill’ yn tyfu bob blwyddyn. Er gwaethaf hynny, mae’n dal i gyfrif am lai nag un rhan o dair o gyfanswm y gwylio, ac mae’n bwysig nodi bod pobl yn dal i wylio teledu byw neu ar alw ar declynnau ar wahân i’r set deledu. O ystyried hyn ochr yn ochr â chynnydd sylweddol yn niferoedd gwylio S4C ar iPlayer, mae’n rhesymol i dderbyn bod cyfran o’r newid hwn mewn teclynnau gwylio, o leiaf, yn parhau i wylio teledu ‘traddodiadol’, ond drwy dechnoleg wahanol.


Dylai’r pwyllgor nodi yn ogystal y rhagwelir y bydd y duedd at ddefnydd teclynnau eraill yn arafu ac yn aros oddeutu’r traean erbyn 2020.

Hoffem gyfeirio at yr ail graff, sy’n dangos cyfran lethol o wylwyr 65+ i’r gwylio traddodiadol. Dylid nodi hefyd fod trafodaeth yn parhau parthed i ba raddau mae arferion gwylio pobl yn newid wrth iddynt heneiddio, a bod y gynulleidfa hon yn fwy tebygol o wylio teledu unionlin mewn modd traddodiadol o flaen set deledu. Felly dylid gochel rhag tybio y bydd ymddygiad o’r fath yn newid yn sylweddol yn y tymor hir. Mae gan y gynulleidfa hon hawl i ddarpariaeth maent wedi dod i ddisgwyl ei gwylio, h.y. cynnwys teledu o safon uchel wedi ei ddarlledu ar sianel ddaearol, unionlin.

Nid nod yr un o’r dadleuon hyn yw gwadu ei bod yn bwysig amrywio presenoldeb S4C ar lwyfannau gwahanol, a datblygu a chynyddu faint o gynnwys sy’n gweddu i arferion demograffeg symudol, iau. Fel yr eglurodd ein cynrychiolwyr, mae cynhyrchwyr yn buddsoddi mewn offer a thechnoleg i ddatblygu cynnwys o’r fath. Dylid nodi, fodd bynnag, nad oes arbedion cost i’w gwneud o anghenraid, fel y rhagdybir yn aml. Gall cynhyrchu fideo o safon 5-munud i’w lwytho ar-lein olygu’r un faint o waith paratoi’r set, colur a chamera â rhaglen 30-munud.

Bydd angen i unrhyw gynnwys a gyslltir â brand S4C barhau i gynnal y safon mae ei chynulleidfa’n ei disgwyl. Os bydd ei chynnwys ffurf fer i’w weld yn ‘amhroffesiynol’, bydd hyn yn ei ddibrisio, ac fel yr eglurwyd, peryg y byddai hyn y creu argraff o wasanaeth eilradd. Os mai clip fideo o ansawdd gwael yw profiad cyntaf person ifanc o S4C, gallai hynny fod yn andwyol i’r posibilrwydd y daw yn aelod o gynulleidfa S4C yn y dyfodol.

__Information provided to TAC by S4C, March 2017 / Gwybodaeth a ddarparwyd i TAC gan S4C, Mawrth 2017__




**Key Guide**

Reported to TV set (Light blue) = BARB reported viewing: live and up to 7-day consolidated timeshift/catch-up

Non-reported to TV set (dark blue) = All other viewing of video content on the TV set, but excluding video games

Other screens (pink) = All viewing of video content on other screens, whether long form or short form

**Allwedd**

Anfonwyd at y set deledu (glas golau) = gwylio o adroddiad BARB: byw a hyd at 7 diwrnod o wylio wedyn/dal i fyny

Heb ei anfon at y set deledu (glas tywyll) = pob math arall o wylio cynnwys fideo ar y set deledu, ac eithrio gemau fideo

Sgriniau eraill (pinc) = holl wylio cynnwys fideo ar sgriniau eraill, boed hynny'n ffurf hir neu ffurf fer

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon